# Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd y polisi gan** | |
| **Dyddiad cymeradwyo** | **06/01/13** |
| **Dyddiad Gweithredu** | **06/01/13** |
| **Perchennog y Polisi** | **SV** |
| **Dyddiad Adolygu** | 15/04/2027 |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

# Fersiwn

Cyn cysylltu â’r Adran Adnoddau Dynol ynghylch cynnwys y polisi hwn, argymhellir i chi gyfeirio at y fersiwn diweddaraf ar y wefan a’r canllawiau perthnasol. Fel pob dogfen ar y wefan, mae’r polisi yn amodol ar adolygiad rheolaidd oherwydd newidiadau deddfwriaeth a pholisi. Mae'r fersiynau diweddaraf o holl ddogfennau Adnoddau Dynol i’w gweld ar dudalennau Adnoddau Dynol.

| Fersiwn | Dyddiad cymeradwyo | Cymeradwywyd gan | Diwygio |
|---|---|---|---|
| f1.0 | 12.04.14 | Sophie Vaughan | Diwygiadau symiau cyflog yn unol â'r cynnydd costau byw a gytunwyd yn genedlaethol a newid o gyflog sy’n gysylltiedig â pherfformiad i gyflog sy’n gysylltiedig â phrofiad<br>Newidiadau i ddyddiadau blwyddyn academaidd 2020 -2021 |
| f1.0 | 06.01.13 | Sophie Vaughan | Eglurhad ar hyd y sesiwn. Cwestiynau Cyffredin wedi'u euhangu |
| f1.1 | 03.12.14 | Sophie Vaughan | Eglurhad ar hyd y sesiwn. Cynydd yn y Gyfradd Cysgu i mewn |
| f2.0 | 15.01.15 | Catrin Roberts | Mwy o eglurhad o ran Cyfradd Cysgu i Mewn |
| f2.1 | 30.03.16 | Sophie Vaughan | Yn unol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol |
| f2.2 | 01.11.17 | Sophie Vaughan | Cytunwyd gydag undebau llafur ar 25.10.17 a'u gweithredu 01.11.17. Adolygiad o daliadau Cynnal a Chadw'r Gaeaf, adlewyrchir mewn gwelliannau i SB7 y gyfradd a'r amgylchiadau. |
| f3.0 | 25.04.18 | Andrea Malam | Ail-fformatio |
| f3.1 | 01.04.20 | Sophie Vaughan | Yn unol â'r Cyflog Byw Cenedlaethol |
| f3.2 | 11.06.20 | Sophie Vaughan | Cywiriadau i gyfraddau SB |
| f3.3 | 27.08.20 | Sophie Vaughan | Cyfraddau SB newydd |
| f3.4 | 03.03.21 | David Kennedy | fformatio hygyrch |
| f3.5 | 20.11.23 | Sophie Vaughan | Cyfraddau SB Newydd |
| f3.6 | 15.04.24 | Sophie Vaughan | Cyfradd Cysgu i Mewn newydd |

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

# Cynnwys


Fersiwn 2
Cynnwys 3
ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU 4
Rheolwyr Llinell: 4
Arbenigwr Adnoddau Dynol a Thâl a Gwobrwyo: 4
Pryd mae'r polisi hwn yn briodol a sut ddylid ei gymhwyso? 4
Diffiniad o Fod Wrth Gefn, Cyfrifoldebau a Thâl 5
Cyfrifoldebau Cyflogeion sydd Wrth Gefn 5
Tâl 5
Offer 6
Trefniadau Cytundebol 6
Gweithredu 7
Trefniadau Munud Olaf ar gyfer Bod Wrth Gefn 7
Diffiniad o Alwadau Allan, Cyfrifoldebau a Thâl 7
Cyfrifoldebau Cyflogeion sydd Wedi'u Galw Allan 8
Tâl 8
Amser a Chostau Teithio 8
Cyfnodau o Orffwys 8
Diffiniad o Gysgu i Mewn, Cyfrifoldebau a Thâl 9
Cyfrifoldebau Cyflogeion sy'n 'Cysgu i mewn'. 9
Tâl 9
Cyfnodau o Orffwys 10
Trefniadau Cytundebol 11
Opsiynau ar gyfer Statws Cytundebol 11
Categorïau Tâl am Fod Wrth Gefn 13
CATEGORÏAU GWAITH 13
Cwestiynau a Ofynnir yn Aml 17

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

# ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

## Rheolwyr Llinell:

Sicrhau y rhoddir y gyfradd gywir a phriodol i gyflogeion yn unol â'r tarfiad a'r dyletswyddau y maent yn eu cyflawni tra'u bod Wrth Gefn, Wedi'u Galw Allan neu'n Cysgu i Mewn

## Arbenigwr Adnoddau Dynol a Thâl a Gwobrwyo:

Rhoi cyngor, arweiniad ac adolygu Taliadau am Fod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn yn rheolaidd i sicrhau bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n deg ac yn gyfartal ar draws y Cyngor.

## Pryd mae'r polisi hwn yn briodol a sut ddylid ei gymhwyso?

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cydnabod bod byd gwaith wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac na ellir ei ystyried bellach yn weithrediad o 9am tan 5pm. Mae'n **rhaid** i rai gwasanaethau gan lywodraeth leol fod ar gael pa un bynnag y tu allan i'r oriau hyn, neu hyd yn oed 24 awr y dydd, oherwydd gofynion cleientiaid neu'r angen i warchod iechyd a diogelwch y gymuned.

Mae cyfres o wahanol opsiynau ar gyfer Taliadau am Fod Wrth Gefn a gaiff eu pennu'n gorfforaethol, sydd ar gael i adrannau sy'n cyflogi eu defnyddio ac sydd i'w gweld yn Adran 7.

Gan ddibynnu ar union natur y swydd, byddai'r adran sy'n cyflogi wedyn yn gallu dewis o'r opsiynau yn Adran 7 a chymhwyso'r un swydd fwyaf priodol i'w hamgylchiadau.

Er mwyn sicrhau nad yw ystyriaethau cyflog cyfartal yn cael eu peryglu, mae Adran 7 yn nodi'r meini prawf o ran pa opsiynau sy'n briodol dan ba amgylchiadau. Ni fydd adrannau'n gallu creu 'opsiynau newydd' heb gydgytundeb corfforaethol i amrywio'r polisi,

h.y. bydd yr opsiynau sydd ar gael yn cael eu rheoli'n ganolog.

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

## Diffiniad o Fod Wrth Gefn, Cyfrifoldebau a Thâl

Mae rotas ar gyfer bod wrth gefn yn ei gwneud yn bosib sefydlu cronfa o staff sy'n gallu ymateb i amrywiaeth o ofynion gan y gwasanaeth y tu allan i'w horiau swyddfa arferol yn gymharol fyr rybudd. Bydd pecynnau digolledu ar gyfer bod wrth gefn a galwadau allan yn adlewyrchu amrywiaeth y gofynion a'r trefniadau hyn.

## Cyfrifoldebau Cyflogeion sydd Wrth Gefn

Mae'n ofynnol i gyflogai sydd 'wrth gefn' fod 'yn barod drwy'r amser ar gyfer dyletswydd' y tu allan i'w oriau swyddfa/gweithredol arferol ar achlysur neu amser penodol, neu dros gyfnod o amser.

Mae'n rhaid gallu cysylltu â'r cyflogai trwy linell dir neu ffôn symudol a galw fel y bo'n briodol, yn ystod y cyfnod o fod wrth gefn. Os cyfyd yr angen, mae'n rhaid i'r cyflogai fod ar gael ar gyfer dyletswydd a bod yn barod i'w chyflawni ac yn gallu ei chyflawni gartref neu mewn lleoliad y tu allan i'r gwaith neu drwy fynd i'r gwaith neu leoliad arall fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid i'r cyflogai felly aros o fewn pellter teithio rhwydd i unrhyw leoliad y gellir yn rhesymol ofyn i'r cyflogai fynd iddo.

Bydd unrhyw ddyletswyddau tra bo'r cyflogai wrth gefn yn cael eu cyflawni yn unol â'r rheolau, disgyblaeth a chonfensiynau arferol ar gyfer mynychu'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys bod mewn cyflwr ffit a sobor yn unol â pholisïau perthnasol lleol ar alcohol a gyrru

### Tâl

Dylai tâl am fod wrth gefn adlewyrchu lefel wirioneddol yr anghyfleustra neu'r amhariad i fywyd cartref arferol y cyflogai sy'n digwydd dan amgylchiadau arbennig gofynion pob gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys:

- Unrhyw gyfyngiad ar leoliad neu symudiad y cyflogai yn ystod cyfnodau o fod wrth gefn
- Y cyfnod gwirioneddol a dreulir yn cyflawni dyletswyddau wrth gefn

- Pryd y mae'r cyflogai wrth gefn (e.e. gall penwythnosau, cyfnod o orffwys, a gwyliau banc olygu cyfraddau uwch) Mae manylion y dull talu wedi'u cynnwys yn Adran 7. Bydd y tâl yn cynnwys isafswm o 30 munud o amser gweithio.

Bydd hyd y sesiwn yn dibynnu ar y gwasanaeth rydych chi'n gweithio ynddo - bydd eich Rheolwr yn egluro hyn i chi. Fel arfer bydd sesiwn lawn yn para hyd at 16 awr, y cyfnod arferol y bydd y swyddfa ar gau. Os bydd y cyfnod aros yn llai nag 8 awr yna bydd y taliad yn cael ei haneru yn unol â hynny.

## Offer

Bydd cyflogeion y mae'n ofynnol gallu cysylltu â hwy y tu allan i'w man gweithio arferol yn cael ffôn symudol. Dan amgylchiadau eithriadol, bydd y Cyngor yn talu tuag at rentu llinell dir yn ôl y gyfradd am linell dir safonol gan BT.

Bydd cost unrhyw alwadau sy'n gysylltiedig â gwaith a wneir ar linell dir y cyflogai'n cael ei had-dalu yn ôl cost wirioneddol yr alwad.

Bydd egwyddor Statws Sengl yn gymwys wrth gyflenwi offer o'r fath fel bod cyflogeion yn cael eu trin yn gyfartal ar sail gofynion y sefydliad ar gyfer cyflawni dyletswydd wrth gefn.

## Trefniadau Cytundebol

Gall trefniadau ar gyfer bod wrth gefn fod yn gytundebol neu'n wirfoddol. Fodd bynnag, lle mae rhwymedigaethau statudol yn cael eu cyflawni neu lle ymatebir i sefyllfaoedd brys yr egwyddor y dylid ei dilyn ar y cyfan yw ei bod yn gytundebol ofynnol i gyflogeion perthnasol gyfranogi mewn cyfnodau priodol o ddyletswydd wrth gefn. Byddai hyn yn gymwys i'r canlynol:

- Swyddogion Rheoli Adeiladu
- Cyflogeion yn y gwasanaeth priffyrdd o ran Cynnal a Chadw yn y Gaeaf
- Swyddogion Cynllunio at Argyfwng
- Swyddogion Digartrefedd
- Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd
- Gwasanaethau Oedolion

- Swyddogion Iechyd Anifeiliaid

### Gweithredu

Bydd statws cytundebol yn cael ei weithredu ar gyfer pob cyflogai newydd ac ar gyfer cyflogeion presennol lle mae eisoes yn ofyniad cytundebol. Lle mae dyletswyddau wrth gefn yn cael eu cyflawni ar sail wirfoddol ar hyn o bryd, bydd hyn yn newid i fod yn gytundebol dim ond os yw'r cyflogai'n cytuno. Fel arall bydd yn aros yn drefniant gwirfoddol.

Dylid rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn amgylchiadau personol a allai effeithio ar allu cyflogai i gyflawni dyletswyddau wrth gefn.

### Trefniadau Munud Olaf ar gyfer Bod Wrth Gefn

Er y bydd rotas ar gyfer bod wrth gefn yn cael eu sefydlu ymlaen llaw ar y cyfan, bydd angen bod yn hyblyg o hyd i ymdrin â sefyllfaoedd annisgwyl. Ar adegau efallai y bydd angen sefydlu trefniadau munud olaf ar gyfer bod wrth gefn er enghraifft mewn achosion brys, neu mewn cysylltiad â dyddiadau pan fo prosiectau'n mynd yn fyw.

## Diffiniad o Alwadau Allan, Cyfrifoldebau a Thâl

Ystyrir bod cyflogai 'wedi'i alw allan' os gelwir ar y cyflogai i ddychwelyd i'r gwaith i wneud unrhyw waith naill ai yn ystod cyfnod o fod wrth gefn neu fel arall. Gellir gwneud y gwaith yma yn y ffyrdd canlynol:

- Mynd i fan gweithio
- Mynd i leoliad arall
- Gwneud gwaith gartref (e.e. trwy roi cyngor dros y ffôn neu fewngofnodi i systemau o bell)
- Gwneud gwaith mewn unrhyw leoliad arall (e.e. trwy roi cyngor dros y ffôn)
- Gwneud trefniadau i eraill fod yn bresennol neu ymdrin mewn ffordd arall â mater

## Cyfrifoldebau Cyflogeion sydd Wedi'u Galw Allan

Os yw'n ofynnol i gyflogai sydd wrth gefn yn ffurfiol wneud unrhyw waith yn ystod y cyfnod yma, bydd disgwyl i'r cyflogai allu cyflawni'r ystod arferol o ddyletswyddau sy'n gymesur â'i swydd, ynghyd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Bydd dyletswyddau'n cael eu cyflawni'n unol â'r rheolau, disgyblaeth a chonfensiynau arferol ar gyfer mynychu'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys bod mewn cyflwr ffit a sobor yn unol â pholisïau perthnasol lleol ar alcohol a gyrru.

## Tâl

Bydd lwfansau am fod wrth gefn yn cynnwys hyd at 30 munud o "amser gweithio" yn ystod y cyfnod o fod wrth gefn. Bydd taliadau'n cael eu gwneud fel tâl goramser am isafswm gwarantedig o 2 awr yn unol â SB5 yn y tabl tâl.

Os caiff cyflogai ei alw allan eto o fewn y cyfnod o 2 awr, yna bydd hyn yn cyfrif fel un alwad allan. Os yw cyflogai wedi dychwelyd adref ar ôl un alwad allan ac yn derbyn galwad arall allan wedi i'r cyfnod o ddwy awr ddod i ben, bydd hyn yn cyfrif fel galwad newydd allan a bydd y cyflogai'n derbyn tâl arall am isafswm o 2 awr.

Fodd bynnag, ni ddylai cyflogeion sy'n cael eu galw allan dro ar ôl tro mewn un cyfnod o fod wrth gefn dderbyn tâl sy'n uwch nag y byddent wedi'i gael pe baent wedi gweithio'n barhaus am yr un cyfnod o amser.

## Amser a Chostau Teithio

Telir am yr holl amser teithio o fewn cyfnod yr alwad allan. Bydd yr alwad allan yn dechrau pan fo'r cyflogai'n gadael ei gartref ac yn dod i ben pan fydd yn dychwelyd adref.

Bydd costau teithio'n cael eu had-dalu yn ôl y gyfradd arferol am bob milltir.

## Cyfnodau o Orffwys

Mae Rheoliadau Amser Gweithio 1998 yn cynnwys terfynau ar uchafswm yr oriau a gaiff eu gweithio ac yn nodi isafswm o ran cyfnodau o orffwys yn dilyn cyfnod o ddyletswydd. Mae'n rhaid i gyfnodau o orffwys ar gyfer staff sy'n cael eu galw allan gydymffurfio â

chanllawiau'r Rheoliadau Amser Gweithio a bod yn unol ag arfer effeithiol ym maes Iechyd a Diogelwch. Gallant hefyd amrywio yn ôl:

- Yr amser o'r dydd neu'r nos y caiff y cyflogai ei alw allan
- Hyd yr alwad / y galwadau allan
- Nifer y galwadau allan
- Maint yr amhariad ar gwsg di-dor

Ceir mwy o wybodaeth am gyfnodau o orffwys trwy ddefnyddio'r dolenni canlynol ar y Rhyngrwyd https://www.gov.uk/maximum- weekly-working-hours a https://www.gov.uk/drivers-hours.

## Diffiniad o Gysgu i Mewn, Cyfrifoldebau a Thâl

> Gall fod yn ofynnol i staff 'gysgu i mewn' yn sefydliadau eu cleientiaid neu mewn sefydliadau gwaith er mwyn bod wrth law ar unwaith pe cyfyd sefyllfa y byddai gofyn iddynt roi sylw iddi.

## Cyfrifoldebau Cyflogeion sy'n 'Cysgu i mewn'.

Mae'n ofynnol i gyflogai sy'n 'cysgu i mewn' fod yn barod ar gyfer dyletswydd (pan gaiff ei ddihuno, os yw'n cysgu) pryd bynnag y cyfyd yr angen yn ystod y cyfnod penodedig.

Bydd yn ofynnol i'r swyddog allu cyflawni'r ystod lawn o ddyletswyddau arferol, ynghyd ag unrhyw rai eraill sy'n angenrheidiol ac yn briodol.

Bydd dyletswyddau 'cysgu i mewn' yn cael eu cyflawni'n unol â'r rheolau, disgyblaeth a chonfensiynau arferol ar gyfer mynychu'r gwaith. Mae hyn yn cynnwys bod mewn cyflwr ffit a sobor yn unol â pholisïau perthnasol lleol ar alcohol a gyrru.

## Tâl

Y nod wrth dalu am 'gysgu i mewn' yw digolledu am y canlynol:

- Yr amhariad i fywyd cartref arferol y cyflogai a achosir trwy orfod bod oddi cartref; a hefyd

- Yr amhariad i noson arferol o gwsg a achosir neu sy'n debygol o gael ei achosi o fewn y sefydliad arbennig

Bydd y taliad yn lwfans sefydlog o £91.52 yn seiliedig ar sesiwn cysgu 8 awr (i gynyddu yn unol â'r cyfraddau cyflog byw Cenedlaethol). Bydd yr un peth yn wir ar gyfer pawb sy'n cyflawni'r ddyletswydd, waeth beth fo'u cyfradd cyflog sylfaenol. Os bydd gweithiwr yn gweithio sesiwn gwahanol i 8 awr, bydd y taliad yn cael ei gynyddu neu ei ostwng yn unol â hynny e.e. 10 awr x £11.44 = £114.40 y sesiwn. Sicrhewch fod y gyflogres yn cael ei hysbysu os yw hyn yn wir. Bydd sesiwn yn cynnwys hyd at 30 munud o "amser gwaith".

Os bydd yr aflonyddwch yn golygu y bydd gweithiwr yn cefnogi defnyddiwr gwasanaeth am fwy na 3 awr (cyfanswm) yna bydd y cyfnod cysgu i mewn yn noson effro ac fe delir am hynny yn unol â'r gyfradd gytundebol yr awr, sy'n disodli'r gyfradd cysgu i mewn.

## Cyfnodau o Orffwys

Mae Rheoliadau Amser Gweithio 1998 yn cynnwys terfynau ar uchafswm yr oriau a gaiff eu gweithio ac yn nodi isafswm o ran cyfnodau o orffwys yn dilyn cyfnod o ddyletswydd. Mae cyfnodau o amser ynghwsg pan fo cyflogai ar ddyletswydd 'cysgu i mewn' yn cyfrif fel amser gweithio dan y gyfarwyddeb. Mae'n rhaid i gyfnodau o orffwys ar gyfer staff sy'n 'cysgu i mewn' gydymffurfio â chanllawiau'r Rheoliadau Amser Gweithio a bod yn unol ag arfer effeithiol ym maes Iechyd a Diogelwch. Gallant hefyd amrywio yn ôl:

- Yr amser o'r dydd neu'r nos y mae'n ofynnol i'r cyflogai gyflawni dyletswyddau yn ystod y cyfnod 'cysgu i mewn'
- Cyfanswm hyd yr amser y mae'n ofynnol i'r cyflogai gyflawni dyletswyddau yn ystod y cyfnod 'cysgu i mewn'
- Y nifer o weithiau y mae'n ofynnol i'r cyflogai gyflawni dyletswyddau yn ystod y cyfnod 'cysgu i mewn'
- Maint yr amhariad ar gwsg di-dor

Ceir mwy o wybodaeth am gyfnodau o orffwys trwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol ar y Rhyngrwyd https://www.gov.uk/maximum- weekly-working-hours.

## Trefniadau Cytundebol

Rhagwelir y bydd swydd-ddisgrifiadau'n datgan yn eglur pa fath o ddyletswyddau wrth gefn y mae'n rhaid eu cyflawni, a pha gategori o dâl fydd yn cael ei gymhwyso. Bydd yn rhaid i gontractau nodi'n eglur pa un a yw'r trefniadau hyn yn gytundebol rwymol (gweler Adran 6 am fwy o wybodaeth).

Dylai rheolau tebyg fod yn gymwys i ddyletswyddau goramser hefyd

Bydd statws cytundebol yn cael ei weithredu ar gyfer pob cyflogai newydd ac ar gyfer cyflogeion presennol lle mae eisoes yn ofyniad cytundebol. Lle mae dyletswyddau wrth gefn yn cael eu cyflawni ar sail wirfoddol ar hyn o bryd, bydd hyn yn newid i fod yn gytundebol dim ond os yw'r cyflogai'n cytuno. Fel arall bydd yn parhau i fod yn drefniant gwirfoddol.

Dylid rhoi ystyriaeth i newidiadau mewn amgylchiadau personol a allai effeithio ar allu cyflogai i gyflawni dyletswyddau wrth gefn.

## Opsiynau ar gyfer Statws Cytundebol

Byddai angen i'r adran sy'n cyflogi nodi pa gategori y mae'r dyletswyddau'n perthyn iddo.

OPSIYNAU AR GYFER STATWS CYTUNDEBOL (o ran Bod Wrth Gefn / Ar Gael ar gyfer Dyletswydd)

| CYF | DISGRIFIAD | ENGHREIFFTIAU |
|---|---|---|
| C1: Yn rhwymo'r ddwy ochr | Lle mae'r cyflogai wedi'i gontractio i ddarparu symiau penodol o ddarpariaeth wrth gefn, a'r Cyngor wedi'i gontractio i (wastad) ddarparu tâl am y dyletswyddau wrth gefn hyn.<br>TÂL (llawn) PAN FO'R CYFLOGAI'N ABSENNOL OHERWYDD SALWCH NEU WYLIAU | Mae enghreifftiau o achosion pan allai'r opsiwn hwn gael ei ddefnyddio'n cynnwys; Meysydd lle mae'r Cyngor a'r cyflogai, fel rhan o'u dyletswyddau, dan rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau statudol y tu allan i'w horiau gwaith arferol (e.e. rhai swyddi yn y Gwasanaethau Oedolion lle mae'n ofynnol iddynt fod wrth gefn yn unol â rhwymedigaethau statudol) |

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

| CYF | DISGRIFIAD | ENGHREIFFTIAU |
|---|---|---|
| C2: Yn rhwymo un ochr | Lle mae'r cyflogai wedi'i gontractio i gyfranogi mewn trefniadau i fod wrth gefn fel y bo/pan fo'r cyflogwr yn ei gwneud yn OFYNNOL i'r cyflogai wneud hynny, h.y. dan yr amgylchiadau cyffredinol y cyfeirir atynt yn y llythyr penodi neu'r contract cyflogaeth.<br>TÂL (llawn) PAN FO'R CYFLOGAI'N ABSENNOL OHERWYDD SALWCH NEU WYLIAU | Mae enghreifftiau o achosion pan allai'r opsiwn hwn gael ei ddefnyddio'n cynnwys; Meysydd lle mae'r Cyngor dan rwymedigaeth i ddarparu gwasanaethau statudol y tu allan i'w oriau gwaith arferol, (e.e. gweithwyr priffyrdd y mae'n ofynnol iddynt fod wrth gefn ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw yn y gaeaf neu gyflogeion y gwasanaethau cymdeithasol y mae'n ofynnol iddynt fod wrth gefn er mwyn diwallu anghenion cleientiaid). |
| C3: Yn wirfoddol i'r ddwy ochr | Lle gall y Cyngor geisio gwirfoddolwyr ar gyfer dyletswydd wrth gefn, a bod caniatâd i gyflogeion wirfoddoli eu gwasanaethau.<br>HEB DÂL PAN FO'R CYFLOGAI'N ABSENNOL OHERWYDD SALWCH NEU WYLIAU | Gall y naill ochr neu'r llall dynnu'n ôl o'r trefniadau trwy roi rhybudd rhesymol. Fodd bynnag, bydd gwirfoddolwyr fel arfer yn cynnig eu gwasanaethau ar gyfer 'cyfnodau dyletswydd' rhagnodedig, y bydd disgwyl wedyn iddynt eu cwblhau. |

# Categorïau Tâl am Fod Wrth Gefn

## CATEGORÏAU GWAITH

Byddai angen i'r adran sy'n cyflogi nodi i ba gategori y mae'r dyletswyddau'n perthyn

| DISGRIFIAD / MEINI PRAWF | DYLETSWYDDAU (i'w hadlewyrchu yn y system dâl a ddewisir) | Mathau o dâl a awgrymir |
|---|---|---|
| SB1: 'Wedi'i restru'<br>Pan fo rhif ffôn rhywun wedi'i restru fel cyswllt posib, ond bod dim dyletswydd i 'barhau i fod yn hawdd cysylltu ag ef/â hi'<br>Yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau ni fyddai'r person sydd wrth gefn yn disgwyl cael unrhyw alwadau.<br>Bydd amgylchiadau achlysurol, byrdymor neu ad hoc pan ellir ystyried bod trefniant anffurfiol i fod wrth gefn yn briodol. | Pe ceid unrhyw alwadau – byddai'n rhaid ymdrin â hwy, gan gynnwys trosglwyddo unrhyw negeseuon/cyfarwyddiadau gwaith i eraill.<br>Penderfynu mynd i'r gwaith neu leoliad arall os yw'n angenrheidiol ac / neu<br>Benderfynu a oes angen i rywun arall fynd i'r gwaith neu leoliad arall, naill ai yn lle, neu yn ogystal â'r cyflogai;<br>Cysylltu ag unrhyw gyflogeion ychwanegol os yw'n angenrheidiol ac os cytunwyd gyda'r Swyddog Cyswllt<br>Rhoi cyfarwyddyd eglur i, neu gytuno gyda'r 'Swyddog Cysylltu' ynghylch y cam gweithredu sy'n cael ei gymryd/sydd i'w gymryd, gan gynnwys bod y 'Swyddog Cysylltu' yn gwneud trefniadau i rywun arall ymdrin â'r mater yn gyfan gwbl.<br>Mewn trefniant anffurfiol i fod wrth gefn bydd y cyfrifoldeb am wneud trefniadau eraill yn gorwedd gyda'r Swyddog Cysylltu lle nad yw'r cyflogai ar gael neu lle nad yw'n gallu ymateb. | DIM – dylai fod yn un o'r gofynion yn y contract cyflogaeth cyffredinol. |

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

| DISGRIFIAD / MEINI PRAWF | DYLETSWYDDAU (i'w hadlewyrchu yn y system dâl a ddewisir) | Mathau o dâl a awgrymir |
|---|---|---|
| SB2: 'Hawdd cysylltu ag ef/â hi'<br>Pan fo'n rhaid i rywun fod yn 'hawdd cysylltu ag ef/â hi' dros y ffôn yn ystod y cyfnod o ddyletswydd, ond nad oes llawer o amhariad ar y cyfan yn ystod y cyfnodau sydd y tu allan i oriau arferol<br>Yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau ni fyddai'r person sydd wrth gefn yn disgwyl cael unrhyw alwadau.<br>Ni fydd disgwyl i'r cyflogai gymryd camau gweithredu o ganlyniad i'r alwad | Fel yr uchod – a hefyd:<br>Mae'n ofynnol bod y cyflogai'n 'hawdd cysylltu ag ef/â hi' tra'i f/bod ar ei 'gyfnod dyletswydd' penodedig.<br>Gall ddisgwyl y bydd rhywun yn cysylltu ar adegau, ond yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau ni fyddai'n derbyn unrhyw alwadau. | £12.36 y sesiwn (12-16 awr fel arfer) (ni waeth beth fo'r radd arferol)<br>Tâl am yr wythnosau pan fo'n ofynnol cyflawni'r ddyletswydd yn unig<br>Yn cynnwys hyd at 30 munud o "amser gweithio" |
| SB3: 'Wrth Gefn'<br>Pan fo'n rhaid i rywun fod yn 'hawdd cysylltu ag ef/â hi' a bod y cyflogai'n disgwyl derbyn sawl galwad yr wythnos.<br>Lefel uwch o alwadau na SB2<br>Yn debygol o orfod gweithredu mewn rhyw ffordd o ganlyniad<br>Yn annhebygol o gael ei alw i'r gwaith | Fel yr uchod – a hefyd:<br>Yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau byddai'r sawl sydd wrth gefn yn disgwyl derbyn (ac ymdrin â) nifer o alwadau. | £24.75 y sesiwn (12-16 awr fel arfer) (ni waeth beth fo'r radd arferol)<br>Tâl am yr wythnosau pan gyflawnir y ddyletswydd yn unig<br>Yn cynnwys hyd at 30 munud o "amser gweithio" |

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

| DISGRIFIAD / MEINI PRAWF | DYLETSWYDDAU (i'w hadlewyrchu yn y system dâl a ddewisir) | Mathau o dâl a awgrymir |
|---|---|---|
| SB4: 'Wrth gefn – gan orfod gweithredu'<br>Pan fo'n rhaid i gyflogai fod yn 'hawdd cysylltu ag ef/â hi', a'i fod yn disgwyl derbyn galwadau y bydd yn rhaid ymdrin â hwy.<br>Yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau byddai'r sawl sydd wrth gefn yn disgwyl derbyn nifer o alwadau.<br>Yn debygol o gael ei alw i'r gwaith | Fel yr uchod, a hefyd:<br>Mae disgwyl i'r sawl sydd wrth gefn gymryd rhai camau gweithredu arfaethedig penodol tra nad yw yn y gwaith (e.e. gwneud penderfyniadau gweithredol yn seiliedig ar y tywydd a.y.b.) | £30.95 y sesiwn (12-16 awr fel arfer) (ni waeth beth fo'r radd arferol)<br>Tâl am yr wythnosau pan gyflawnir y ddyletswydd yn unig<br>Yn cynnwys hyd at 30 munud o "amser gweithio" |
| SB5: Galwadau Allan<br><br>Pan fo'n ofynnol i gyflogeion ddychwelyd i'r gwaith ni waeth a oeddent eisoes ar gyfnod wrth gefn ai peidio | Mynd i'r man gweithio<br>Mynd i leoliad arall<br>Gwneud gwaith gartref (e.e. trwy roi cyngor dros y ffôn neu fewngofnodi i systemau o bell)<br>Gwneud gwaith mewn unrhyw leoliad arall (e.e. trwy roi cyngor dros y ffôn)<br>Gwneud trefniadau i eraill fod yn bresennol neu ymdrin mewn ffordd arall â mater | Bydd taliadau'n cael eu gwneud fel tâl goramser am isafswm gwarantedig o 2 awr.<br>Os caiff cyflogai ei alw allan eto o fewn y cyfnod o 2 awr, yna bydd hyn yn cyfrif fel un alwad allan.<br>Os yw cyflogai wedi dychwelyd adref ar ôl un alwad allan ac yn derbyn galwad arall allan wedi i'r cyfnod o ddwy awr ddod i ben, bydd hyn yn cyfrif fel galwad newydd allan a bydd y cyflogai'n derbyn tâl arall am isafswm o 2 awr.<br>Fodd bynnag, ni ddylai cyflogeion sy'n cael eu galw allan dro ar ôl tro mewn un cyfnod o fod wrth gefn dderbyn tâl sy'n uwch nag y byddent wedi'i gael pe baent wedi gweithio'n barhaus am yr un cyfnod o amser. |

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

| DISGRIFIAD / MEINI PRAWF | DYLETSWYDDAU (i'w hadlewyrchu yn y system dâl a ddewisir) | Mathau o dâl a awgrymir |
|---|---|---|
| SB6: Trefniadau Cysgu i Mewn<br>Pan fo'n ofynnol i gyflogeion gysgu ar y safle | Mae'n ofynnol i gyflogai sy'n 'cysgu i mewn' fod yn barod ar gyfer dyletswydd (pan gaiff ei ddihuno, os yw'n cysgu) pryd bynnag y cyfyd yr angen yn ystod y cyfnod penodedig.<br>Mae angen ystyried gofynion y gyfarwyddeb amser gweithio | Bydd y taliad yn lwfans sefydlog o £91.52 yn seiliedig ar gyfnod cysgu i mewn o 8 awr (i gynyddu yn unol â'r isafswm cyflog cenedlaethol). Mae'r swm yma yr un fath i bawb, waeth beth yw eu cyfradd cyflog sylfaenol. Os yw'n wahanol i 8 awr yna bydd y taliad yn cael ei gynyddu neu ei ostwng yn unol â hynny e.e. 10 awr x £11.44 = £114.40 y sesiwn. Gwnewch yn siŵr bod yr adran gyflogau yn gwybod am hyn.<br><br>Tâl am y nosweithiau pan fo'n ofynnol cyflawni'r ddyletswydd yn unig<br>Yn cynnwys hyd at 30 munud o "amser gweithio" |
| SB7: Wrth Gefn (Camau Cynnal a Chadw yn y Gaeaf)<br><br>Pobl sydd ar rotas cynnal a chadw yn y gaeaf ac y mae disgwyl iddynt ddychwelyd i'r gwaith ar fyr rybudd (o fewn 6 awr ar y cyfan). | Mae disgwyl i'r sawl sydd wrth gefn fynd i'r depo a chyflawni dyletswyddau cynnal a chadw dynodedig yn y gaeaf. | £17.64 sesiwn (fel arfer 12-16 awr) (Llun – Gwener)<br>£26.45 y sesiwn (fel arfer 12-16 awr) (Dydd Sadwrn a dydd Sul a gwyliau banc)<br>Dim ond am y cyfnod ar ôl-daliadau o SB4 yn lle SB7 y cânt eu talu o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>-Pan fydd "dim gweithredu" wedi'i bostio gan y Rhagcr dyletswydd ar gyfer galw allan yn sifft y bore (11:00pm tan 07:00am) ac wedyn yn gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol ac yn galw ar y gweithredwyr i fynychu'r depos<br>-Os yw "action" wedi cael ei alw a'i ganslo wedi hynny ac yna, yn yr un sifft, ei ail-ddatgan a galw'r pobl yn ôl i'r depo.<br>Rota. |

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

| DISGRIFIAD / MEINI PRAWF | DYLETSWYDDAU (i'w hadlewyrchu yn y system dâl a ddewisir) | Mathau o dâl a awgrymir |
|---|---|---|
| SB7: Wrth Gefn (Camau Cynnal a Chadw yn y Gaeaf)<br><br>• Pobl sydd ar rotas cynnal a chadw yn y gaeaf ac y mae disgwyl iddynt ddychwelyd i'r gwaith ar fyr rybudd (o fewn 6 awr ar y cyfan). | • Mae disgwyl i'r sawl sydd wrth gefn fynd i'r depo a chyflawni dyletswyddau cynnal a chadw dynodedig yn y gaeaf. | • £17.64 sesiwn (fel arfer 12-16 awr) (Llun – Gwener)<br>• £26.45 y sesiwn (fel arfer 12-16 awr) (Dydd Sadwrn a dydd Sul a gwyliau banc)<br>• Dim ond am y cyfnod ar ôl-daliadau o SB4 yn lle SB7 y cânt eu talu o dan yr amgylchiadau canlynol:<br>-Pan fydd "dim gweithredu" wedi'i bostio gan y Rhagcr dyletswydd ar gyfer galw allan yn sifft y bore (11:00pm tan 07:00am) ac wedyn yn gwrthdroi'r penderfyniad gwreiddiol ac yn galw ar y gweithredwyr i fynychu'r depos<br>-Os yw "action" wedi cael ei alw a'i ganslo wedi hynny ac yna, yn yr un sifft, ei ail-ddatgan a galw'r pobl yn ôl i'r depo.<br>Rota. |

# Cwestiynau a Ofynnir yn Aml

Ai cytundebol ynteu gwirfoddol yw trefniadau i fod wrth gefn?

Mae rhai trefniadau i fod wrth gefn yn gytundebol a byddant wedi'u cynnwys yn eich Datganiad o Delerau ac Amodau, neu byddant yn delerau dealledig oherwydd yr amser yr ydych wedi bod yn cyflawni dyletswyddau wrth gefn. Lle mae bod wrth gefn yn drefniant cytundebol bydd disgwyl i chi gyflawni'r dyletswyddau yn unol â'ch contract.

Mewn achosion eraill, bydd trefniadau i fod wrth gefn yn rhai gwirfoddol lle bydd eich rheolwr yn gofyn i'r tîm o wirfoddolwyr gyflawni'r dyletswyddau. Byddai gennych chi fel cyflogai hawl i beidio â chyflawni'r dyletswyddau wrth gefn.

Rwyf Wrth Gefn, os ydw i'n cael fy 'ngalw allan', beth yw hyd disgwyliedig yr alwad allan, a beth sy'n digwydd os ydw i'n gweithio'r tu hwnt i hyd disgwyliedig yr alwad allan?

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

Mae'n amhosib rhagweld am faint y bydd galwad allan yn para. Fodd bynnag, byddwch yn cael tâl am gael eich galw allan (SB5), sef isafswm o 2 awr o dâl yn ôl y gyfradd goramser yn unol â'ch gradd hyd yn oed os yw'r alwad allan yn llai na 2 awr. Os byddwch yn gweithio dros y cyfnod galw allan o ddwy awr byddwch yn cael eich talu am unrhyw amser ychwanegol a gronnir yn ôl cyfradd goramser yn unol â'ch gradd.

Rwyf wedi cael fy ngalw allan dro ar ôl tro o fewn cyfnod o ddwy awr, a fyddaf yn cael tâl am bob galwad allan, ynteu a fydd hyn yn cael ei gyfrif fel un alwad allan?

Os cewch eich galw allan eto o fewn y cyfnod o 2 awr, yna bydd yn cael ei gyfrif fel un alwad allan.

Os ydych wedi dychwelyd adref ar ôl un alwad allan ac yn derbyn galwad arall allan wedi i'r cyfnod o ddwy awr ddod i ben, bydd hyn yn cyfrif fel galwad newydd allan a byddwch yn derbyn tâl arall am isafswm o 2 awr.

Fodd bynnag, os byddwch yn cael eich galw allan dro ar ôl tro mewn un cyfnod o fod wrth gefn ni ddylech dderbyn tâl sy'n uwch nag y byddech wedi'i gael pe baech wedi gweithio'n barhaus am yr un cyfnod o amser.

Os oes rhaid i mi deithio yn ystod galwad allan, a allaf hawlio am hyn?

Gallwch, dylid hawlio am unrhyw gostau milltiredd trwy'r broses arferol oni bai eich bod yn defnyddio un o gerbydau'r Cyngor.

Mae fy amgylchiadau personol wedi newid, a ellir ystyried hyn wrth gael cais i gyflawni dyletswyddau wrth gefn?

Os nad ydych yn gallu cyflawni dyletswyddau wrth gefn, yna mae'n rhaid i chi siarad gyda'ch rheolwr ar unwaith. Os yw'n drefniant cytundebol yna bydd angen i'r rheolwr ystyried a ellir diddymu'r gofyniad i gyflawni dyletswyddau wrth gefn.

Ceir disgwyliad o fewn fy adran bod cyflogeion yn bod wrth gefn ac weithiau'n cael eu galw allan, ond nid yw hyn yn fy nghontract, felly a allaf wrthod?

Mae hyn yn dibynnu a yw wedi bod yn drefniant arferol i chi gyflawni dyletswyddau wrth gefn ac felly bod y gofyniad wedi dod yn ddealledig fel rhan o delerau eich contract. Mae

hyn yn golygu, er nad yw wedi'i gynnwys yn eich contract, bod defod ac arfer yn golygu ei fod yn rhywbeth a ddisgwylir gan y ddau barti ac felly'n dod i fod yn gytundebol.

Yn hytrach na gwrthod byddai'n fwy buddiol siarad gyda'ch rheolwr i weld pa drefniadau y gellir cytuno arnynt.

Sut ydw i'n derbyn tâl am gael fy ngalw allan?

Bydd angen i chi gwblhau Taflen Amser Wrth Gefn/Galwadau Allan a'i chyflwyno i Adran y Gyflogres bob mis. Mae taflenni amser ar gael gan eich Rheolwr neu Adran y Gyflogres.

A yw Taliadau am Fod Wrth Gefn yn Bensiynadwy?

Os ydych yn cyfranogi mewn rota Wrth Gefn sy'n gytundebol yna mae eich taliadau am fod wrth gefn ac unrhyw alwadau allan sy'n gysylltiedig â'r cyfnod hwnnw o fod wrth gefn yn bensiynadwy.

Os byddwch yn rhan o drefniant gwirfoddol i fod wrth gefn yna ni fyddai unrhyw daliadau o ganlyniad i'r rota Wrth Gefn yn bensiynadwy, er bod hyn yn mynd i newid ym mis Ebrill 2014 pan fydd Rheoliadau Pensiynau Llywodraeth Leol yn newid a bod goramser a thaliadau anghytundebol yn dod i fod yn bensiynadwy.

Beth sy'n digwydd os terfir arnaf yn barhaus yn ystod fy nyletswydd Cysgu i Mewn?

Os terfir arnoch a bod cyfanswm yr amser y tarfwyd arnoch yn 3 awr neu fwy (heb gynnwys y 30 munud o amser gweithio sydd wedi'i gynnwys yn y taliad Cysgu i Mewn) yna bydd y ddyletswydd Cysgu i Mewn yn cael ei chyfrif a byddwch yn cael tâl amdani fel sifft noson effro a byddwch yn cael tâl yn unol â'ch cyfradd gytundebol arferol am bob awr.

Pa mor hir yw Sesiwn o Fod Wrth Gefn?

Bydd hyd y sesiwn yn dibynnu ar y gwasanaeth rydych chi'n gweithio ynddo - bydd eich Rheolwr yn egluro hyn i chi. Fel arfer bydd sesiwn lawn yn para hyd at 16 awr, y cyfnod arferol y bydd y swyddfa ar gau. Os bydd y cyfnod aros yn llai nag 8 awr yna bydd y taliad yn cael ei haneru yn unol â hynny.

**Polisi - Trefniadau ar gyfer bod Wrth Gefn, Galwadau Allan a Chysgu i Mewn**

Os ydw i ar alw ar Ŵyl y Banc, faint o gyflog fydda i’n ei dderbyn?

Byddwch yn derbyn y gyfradd ar alw arferol (h.y. SB1-SB4) ond, os ydych chi’n cael ei galw y tu hwnt i'r 30 munud o amser yn gweithio, byddwch yn derbyn cyfradd SB5 yn ychwanegol at eich cyfradd fesul yr awr arferol. Telir eich oriau gweithio ar y gyfradd arferol. Yn ogystal â hyn, fe gewch chi amser i ffwrdd gyda thâl ar gyfer yr oriau y bu i chi weithio.

Mae ein hadran yn gweithredu 'Cau i lawr' dros gyfnod y Nadolig / Flwyddyn Newydd, ond mae gofyn i ni ddarparu gwasanaeth ar alwad i ymdrin ag unrhyw argyfyngau er ein bod ar wyliau blynyddol. Os bydd galwad yn digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn ein oriau gwaith arferol, beth allwn ni ei hawlio?

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i rai adrannau ddarparu rota argyfwng ar alwad tra bod y gweithle ar gau ar gyfer cyfnod y Nadolig. Os yw hyn yn digwydd, a'ch bod ar wyliau blynyddol ond ar y rota wrth gefn, byddwch yn derbyn eich Taliad Parhaol arferol a'ch taliad SB5 am unrhyw alwadau. Yn ogystal, bydd unrhyw amser a dreulir yn mynychu galwad yn ystod yr oriau gwaith arferol yn cael ei ddyfarnu yn ôl i chi i gymryd fel gwyliau blynyddol yn nes ymlaen.